

Beth mae 'Rheoleiddio Ein Dyfodol' yn ei olygu?

- Mae'n ymwneud â moderneiddio sut mae busnesau bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn cael eu rheoleiddio wrth wirio bod ein bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label, gyda'r nod o adeiladu system sy'n ddeinamig, yn gynaliadwy, ac sy'n gallu addasu wrth i amgylchiadau newid a thechnoleg ddatblygu yn y dyfodol.

Pam ydym ni'n newid y ffordd rydym ni'n rheoleiddio'r sectorau bwyd a bwyd anifeiliaid?

- Er mwyn rhoi'r hyblygrwydd sydd ei angen i addasu i'r newidiadau yn yr economi fyd-eang: yn yr hyn rydym ni'n ei fwyta, lle rydym ni'n ei fwyta, a sut mae'n ein cyrraedd ni.
- Darparu dull soffistigedig er mwyn rheoleiddio diwydiant bwyd cynyddol amrywiol ac er mwyn addasu'n gyflym i risgiau sy'n newid.
- Er mwyn gallu ymateb i batrymau cynhyrchu bwyd, masnach a defnydd a fydd yn newid pan fydd y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd.
- Er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol, sy'n allweddol o ran cyflenwi'r rhaglen nawr ac yn y dyfodol, yn gallu gweithredu'n effeithiol er gwaethaf pwysau ariannol cynyddol.

Pa newidiadau ydym ni'n eu gwneud?

- Rydym ni'n cyflwyno dull digidol newydd i gofrestru busnesau bwyd a fydd yn helpu busnesau i lwyddo, ac yn rhoi trosolwg unedig i ni o fusnesau bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.
- Rydym ni'n cyflwyno fframwaith rheoli risg mwy soffistigedig wedi'i lywio gan ddata ar gyfer pennu natur, amlder a dwyster rheolaethau swyddogol.
- Rydym ni'n datblygu mecanweithiau ac yn gosod safonau er mwyn galluogi data a gwybodaeth sicrwydd busnesau i gael eu hystyried yn y fframwaith rheoli risg.
- Ar gyfer gweithredwyr aml-safle, rydym ni'n rhoi mwy o bwyslais ar reolaethau ar lefel busnes yn hytrach na mewn safleoedd unigol drwy ddatblygu meini prawf ar gyfer Strategaethau Arolygu Cenedlaethol y Prif Awdurdod.
- Ar gyfer rhai busnesau, rydym ni'n ystyried cyfuno rheolaethau hylendid a safonau er mwyn darparu dull mwy cynhwysfawr o wirio bod busnesau yn bodloni eu holl rwymedigaethau diogelwch bwyd.

- Rydym ni'n gweithio i sicrhau y gall y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd barhau i weithredu'n llwyddiannus fel rhan o'r system reoleiddio sy'n newid.
- Rydym ni'n ymchwilio i opsiynau ar gyfer cyflwyno model ariannu cynaliadwy newydd i gefnogi ein system reoleiddio lle bydd busnesau'n talu'r costau.

Beth fydd buddion y newidiadau hyn?

- Mwy o fusnesau'n cofrestru'n rhagweithiol a chael mynediad at ganllawiau a chefnogaeth bwrpasol i'w helpu i lwyddo o'r cychwyn.
- Bydd mynediad amser real at wybodaeth fanylach ar bob busnes cofrestredig yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn llywio penderfyniadau rheoli risg.
- Rhoi eglurder i fusnesau ar y safonau y mae'n rhaid i fecanweithiau sicrwydd preifat a reoleiddir eu bodloni er mwyn eu hystyried fel rhan o'r fframwaith rheoli risg rheoleiddiol.
- Llai o faich rheoleiddiol ar fusnesau sy'n cydymffurfio'n barhaus ac yn ymrwymo i ddiogelwch bwyd.
- O safbwynt rheoleiddio, canolbwyntio mwy ar fusnesau sydd angen y gefnogaeth fwyaf a'r rhai nad ydynt yn cyflawni eu rhwymedigaethau, a chymryd camau gorfodi amserol a chadarn pan fo angen, er mwyn creu system sy'n fwy buddiol i iechyd y cyhoedd a diogelwch defnyddwyr.
- Cynnal gweithrediad y rhaglen yn y dyfodol drwy fodel ariannu newydd.

